# Cyfarfodydd Cynllunio Derbyn

# Canllaw i rieni a gofalwyr





## Beth yw cyfarfod cynllunio derbyn?

Mae cyfarfod cynllunio yn gyfle i chi a gweithwyr proffesiynol eraill sydd yn gweithio gyda'ch plentyn i drafod sut y maent yn medru cefnogi datblygiad eich plentyn yn y ffordd orau bosib. Eich plentyn ac anghenion eich plentyn fydd prif ffocws y cyfarfod.

## Beth Sydd Yn Digwydd Mewn Cyfarfod Cynllunio Derbyn?

Bydd pawb sydd yn y cyfarfod yn cael y cyfle i rannu'r hyn y maent yn gwybod am eich plentyn. Chi yw'r arbenigwr ar eich plentyn, ac felly, bydd eich cyfraniad chi yn bwysig iawn. Nid oes rhaid i chi siarad yn y cyfarfod os nad ydych am wneud; rydych yn medru darparu nodiadau i eraill i'w darllen neu ofyn i rywun i siarad ar eich rhan.



## Beth Wyf Yn Medru Gwneud I Baratoi Ar Gyfer Cyfarfod Cynllunio Derbyn?

Meddyliwch am yr hyn yr ydych am rannu am eich plentyn ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Prif ffocws y cyfarfod fydd:

1. Gwybodaeth gefndirol berthnasol – Pwy sydd yn rhan o'r teulu? Gwybodaeth iechyd a meddygol. Pa mor aml mae'r plentyn yn mynychu lleoliad cyn-ysgol? A oes unrhyw gymorth wedi'i drefnu neu dargedau wedi eu gosod?
2. Beth sydd yn unigryw am eich plentyn? Rhinweddau positif eich plentyn ynghyd â'i anghenion.
3. Beth sydd yn bwysig i'ch plentyn? Beth sydd yn ymddiddori ac yn ysgogi eich plentyn? Beth mae eich plentyn yn mwynhau? Beth sydd yn gwneud i'ch plentyn deimlo'n ddiogel? Beth sydd yn helpu'ch plentyn i deimlo'n bwyllog?



4. Beth sydd yn bwysig ar ran eich plentyn? – Pa anghenion sydd angen bod yn eu lle er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn manteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd dysgu?
5. Barn rhieni/gofalwyr - Fel yr arbenigwr ar eich plentyn, dyma'ch cyfle chi i rannu eich barn, unrhyw feddyliau a phryderon sydd gennych.
6. Barn y plentyn - Y person pwysicaf, eich plentyn! Efallai na fydd eich plentyn yn medru rhannu ei farn yn uniongyrchol, ond rhaid i ni sicrhau bod eich plentyn yn cael ei glywed. Rydych yn medru helpu drwy rannu'r hyn y maent yn mwynhau am y lleoliad, yr hyn y maent yn disgwyl ymlaen ato neu'n bryderus amdano.
7. Beth sydd yn gweithio'n dda ar hyn o bryd? – Yn benodol, beth sydd yn gweithio a'r hyn sydd yn ddefnyddiol i ni wybod.
8. Beth na sydd yn gweithio mor dda? - Beth sydd angen newid? Beth ydym yn medru dysgu a gwneud yn wahanol yn y dyfodol?
9. Manylion y camau nesaf a gytunir – Mae'r camau yn cael eu cytuno er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod pwy sydd yn gwneud beth a phryd.

## Pwy Fydd Yno?

Bydd y sawl sydd yn cael eu gwahodd i fynychu yn cynnwys chi fel y rhieni, gofalwyr, staff perthnasol o'r lleoliad presennol a'r lleoliad y bydd eich plentyn yn ei fynychu. At hyn, bydd gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi gweithio gyda'ch plentyn (e.e. Ymwelydd Iechyd, Therapydd Lleferydd ac Iaith, Paediatregydd, aelod o'r tîm Dechrau'n Deg) yn cael eu gwahodd.

Mae'r cyfarfodydd yma yn cael eu harwain fel arfer gan aelod o'r tîm Blynyddoedd Cynnar.

monmouthshire
sir fynwy

**CYSYLLTWCH GYDA NI:**
**Tîm Blynyddoedd Cynnar**
**Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga**
**Sir Fynwy  NP15 1GA**
**Ffôn: 01633 644527**
**E-bost: childcare@monmouthshire.gov.uk**

monmouthshire
sir fynwy

# Cyfarfodydd Cynllunio Derbyn

# Canllaw i rieni a gofalwyr

